

# Cyngor Cymuned Llangywer

## Adroddiad Bioamrywiaeth 2019

Mae ardal Cyngor Cymuned Llangywer yn cynnwys 137 o anheddau gyda phoblogaeth o 260 o drigolion (Cyfrifiad 2011). Mae 2 ward etholiadol ac nid yw niferoedd etholwyr wrth law. Praesept y Cyngor yw £4,000

Mae neuadd bentref ym mhentref Llangywer, ond nid oes dim yn Rhosygwaliau. Mae ymhlith yr isaf o ran amddifadedd cartrefi a mynediad at wasanaethau yng Nghymru. Mae'r trigolion yn gweithio yn y byd amaeth, coedwigaeth a gwaith cefn gwlad. Mae llety gwyliau o wahanol fathau yn amlwg iawn yn yr ardal.

Mae Cymuned Llangywer yn rhan o ardal Parc Cenedlaethol Eryri gydag amrywiaeth o gynefinoedd: mynyddoedd, mawndir, ffriddoedd, coedwigoedd a fforest, afonydd a chymoedd culion. Mae rhywfaint o'r gymuned yn ffinio gyda Llyn Tegid a reolir gan Barc Cenedlaethol Eryri.

Mae llawer o'r tir o dan goed fforest. Mae milltiroedd lawer o lwybrau, bron i gyd yn ffinio ar dir pori neu mewn coedwigoedd.

Mae'r Cyngor Cymuned yn berchen ar Fynwent yr Eglwys yn Llangywer. Ychydig o gladdedigaethau sydd yno bob blwyddyn ac mae'r gwair yn y fynwent yn cael ei dorri 3 gwaith y flwyddyn. Mae trwch o fwtsias y gog (clychau'r gog) i'w weld yn y fynwent bob blwyddyn

<b>Adroddiad Gweithredu</b>		
Camau gweithredu i:		Wedi eu monitro gan:
-cynnwys bioamrywiaeth o fewn llunio penderfyniadau a chaffael	- Wrth ymateb i geisiadau cynllunio	Cyngor
-codi ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth a'i bwysigrwydd		
-diogelu y prif rywogaethau a'r cynefinoedd	Gofalu bod ceisiadau cynllunio yn cydymffurfio gyda rheolau gwarchod Parc Cenedlaethol Eryri Torri gwair Mynwent yr Eglwys 3 gwaith y flwyddyn er mwyn diogelu'r bwtsias y gog.	Cyngor

-adfer a chreu cynefinoedd a rhwydweithiau ecolegol cydnerth	Bwriedir derbyn cyngor gan Barc Cenedlaethol Eryri ar greu cynefin addas i fioamrywiaeth yn y fynwent.	
-mynd i'r afael ag elfennau negyddol: lleihau llygredd e.e. defnyddio atebion yn seiliedig ar natur, mynd i'r afael â rhywogaethau goresgynnol		
-defnyddio gwella a rhannu tystiolaeth		
-cefnogi capasiti ac/neu sefydliadau eraill		
<p><b>Arolwg o ddyletswydd Adran 6</b></p> <p>Monitro parhaus Arfarniad yn Rhagfyr bob blwyddyn</p>		
<p>Bwriedir derbyn cyngor gan Barc Cenedlaethol Eryri ar greu cynefin addas i fioamrywiaeth yn y fynwent.</p> <p>Lis Puw Clerc Cyngor Cymuned Llanuwchllyn 4/12/19</p>		